CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**6/9/22**
Teitl:	**Caffael Gwasanaethau Byw â Chymorth**
Pwrpas yr adroddiad:	**Rhoi canlyniad yr ymarfer caffael**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	**Y Cynghorydd Alun Williams, Aelod y Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant**

CEFNDIR:

- Roedd y gwasanaethau byw â chymorth presennol allan o gytundeb ac yn destun craffu gan Lywodraeth Cymru oherwydd yr estyniad parhaus i gytundebau. Drwy dendro'r gwasanaethau byw â chymorth, mae hyn bellach wedi'i unioni ac mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â rheolau gweithdrefn cytundebau.

- Cynhaliwyd gwerthusiad helaeth ac ymgysylltiad darparwyr â'r farchnad, ac mae hyn wedi'i fwydo i mewn i'r fframwaith newydd, a oedd yn cynnwys datblygu system lotio.

- Gan fod system brynu ddeinamig wedi'i defnyddio, mae darparwyr newydd yn gallu gweithio yng Ngheredigion i fodloni galw'r farchnad drwy gwblhau'r un broses â'r rheini a gymerodd ran yn y tendr cychwynnol. Nid oedd cytundebau a fframweithiau blaenorol yn caniatáu i hyn ddigwydd, a arweiniodd at lai o allu yn y farchnad i gefnogi pecynnau gofal.

Mae'r ymarfer caffael bellach wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canlyniad.

CAFFAEL:

- **Mae'r cytundeb am £21,000,000 am gyfnod o 5 mlynedd, gydag estyniad posib o 24 mis.** Gan fod hon yn system brynu ddeinamig, bydd gwerth o £21,000,000 yn cael ei ddyfarnu drwy Gytundebau Lleoli Unigol yn dilyn proses yn ôl y gofyn gyda darparwyr yr ydym wedi eu derbyn ar y fframwaith.

- Mae System Brynu Ddeinamig yn rhestr a gymeradwywyd o ddarparwyr sy'n bodloni'r holl ofynion hanfodol, o'r cystadlaethau mini a gynhelir o dan y System Brynu Ddeinamig ar gyfer contractau penodol.

- Nod y cytundeb yw darparu gwasanaethau a all alluogi unigolion i adennill a/neu gadw eu hannibyniaeth, naill ai drwy leihau eu hanghenion, neu atal

anghenion rhag gwaethygu i ofal preswyl lle nad oes ei angen neu lle nad oes ei eisiau.

- Dechreuodd yr ymarfer caffael ar 30/5/2022. Defnyddiwyd y broses gaffael agored a hysbysebwyd y cytundeb ar Ddod o Hyd i Dendr drwy GwerthwchiGymru. Cyfnod y tendr oedd 35 diwrnod.

- Mynegodd 28 o sefydliadau ddiddordeb yn y cytundeb. Ar y dyddiad cau 4/7/22, cafwyd 12 tendr ac aeth 11 o'r rhain drwy'r cam cymhwyso.

- Llwyddodd 9 sefydliad i fynd trwy'r rownd ansawdd. Gwerthuswyd hyn gan y Rheolwr Corfforaethol, Rheolwr Gwasanaeth a'r Rheolwr Tîm Contractau a Broceriaeth. Gwerthuswyd ceisiadau'r tendr ar allu darparwyr i fodloni gofynion hanfodol a 100% ar ansawdd eu cynigion. Bydd prisio yn dod yn ffactor pan fydd contractau unigol yn cael eu tendro o dan y cytundeb System Brynu Ddeinamig hwn. Mae eu sgorio wedi'i atodi yn Atodiad A (Gwybodaeth Eithriedig).

- Cynhwyswyd amlen fasnachol er gwybodaeth ond ni chafodd ei sgorio. Bydd cynigion masnachol yn cael eu hystyried, yn y cyfnod yn ôl y gofyn.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Nid oes asesiad effaith integredig penodol wedi'i gwblhau ar gyfer y darn hwn o waith oherwydd ei fod yn dod o dan yr effeithiau ehangach sydd eisoes wedi'u hystyried o dan y cynllun gydol oed a llesiant.
	Crynodeb: **Hirdymor:**	Mae'r dadansoddiad diweddar o'r farchnad a gwmpesir yn adroddiad llety'r Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai yn cynnwys amcanestyniadau hyd at 2040, wedi'u crynhoi fel cynnydd yn y gofyniad o'r 23 uned bresennol i 99 o unedau llety ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r System Brynu Ddeinamig yn caniatáu mynediad i eiddo newydd i'r Lotiau drwy gydol ei oes a fydd yn helpu i ddiwallu'r angen cynyddol hwn.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Cydweithio:**	Gellir gweithredu darpariaeth y gwasanaeth hwn hefyd i'r adolygiad o anghenion y dyfodol am lety ar gyfer lles meddyliol yng Ngheredigion. Bydd darparwyr ar

	y System Brynu Ddeinamig yn cael eu cymeradwyo gennym ni ac yn gallu cyflwyno i roi cymorth mewn unrhyw leoliadau byw â chymorth Lles Meddyliol yng Ngheredigion.
Cynnwys:	Hysbysebwyd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ar GwerthwchiGymru a mynychodd nifer o ddarparwyr hwn ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r timau gwaith cymdeithasol hefyd wedi bod yn rhan o hyn a'r model cymorth arfaethedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd ag awdurdodau lleol eraill fel rhan o'r ymchwil i'r farchnad i gael eglurder ac adborth ar eu modelau a'u profiadau.
Atal:	Roedd angen cydymffurfio â chontractau ynghyd ag aliniad â'r ddeddfwriaeth a'r deddfau gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y model newydd yn darparu ar gyfer grwpio cymorth, rhagor o ddarparwyr a mwy o allu yn y farchnad.
Integreiddio:	Rhagwelir y bydd grwpio'r eiddo yn ddaearyddol yn ysgogi cefnogaeth gydweithredol ar draws y fath gan ddod ag effeithiau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau gyda'r gefnogaeth a'r gweithgareddau y gallant gael gafael arnynt.

Argymhelliad: Argymhellir bod y Cabinet yn:

- Cytuno i ddyfarnu lleoedd ar y System Brynu Ddeinamig i'r darparwyr sydd wedi bod yn llwyddiannus, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 diwrnod

Rheswm dros y penderfyniad: Sicrhau bod gwasanaethau byw â chymorth yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal a chymorth a aseswyd, yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Fframwaith Polisi:	Gydol oed a Llesiant
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Heblaw am gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, nid oes dim goblygiadau ar hyn o bryd.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim yn fewnol – gall Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 fod yn berthnasol i'r darparwyr allanol pan fydd contractau penodol yn cael eu tendro o dan y System Brynu Ddeinamig.
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	System Brynu Ddeinamig yw hon felly mae'r risg yn isel iawn gan y bydd 12 darparwr arall yn gallu gwneud y gwaith pe bai un yn methu.
Pwerau Statudol:	Dim
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	A- Sgorio (Gwybodaeth Eithriedig)
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal
Swyddog Adrodd:	Emma Clarke, Rheolwr Corfforaethol: Cymorth Estynedig
Dyddiad:	16.08.22